*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Polisi Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol

## Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n cael mynediad at Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** wrth iddynt ddysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Mae'r Coleg yn cydnabod bod pob dysgwr yn dod ag elfen sy'n berthnasol i wybodaeth, sgiliau, agweddau a chredoau i'r amgylchedd dysgu. Fel sefydliad moesegol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ystyried dysgu blaenorol ac ni fyddwn yn gorfodi ymgeiswyr i ddilyn cwrs dysgu pan fydd ganddynt eisoes y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r cymhwysedd i fodloni'r meini prawf asesu. Bydd y Coleg yn cydnabod y dysgu blaenorol hwn yn ffurfiol pan mae hynny'n briodol yn addysgol. Pan na chaiff ei gydnabod yn ffurfiol, ni fydd dysgu blaenorol yn cael ei gydnabod. Gwerthfawrogwn fod cydnabod dysgu blaenorol yn ddull pwysig o gefnogi'r rhai sydd wedi dychwelyd i ddysgu neu sy'n bwriadu gwneud hynny.

## Datganiadau Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Coleg, waeth beth fo'u dull neu eu lleoliad astudio.
- Holl staff.
- Holl bartneriaid a sefydliadau masnachfraint.

## Diffiniad

**Cydnabod dysgu blaenorol (RPL)** yw pan mae dysgwr yn gallu dangos ei fod yn gallu bodloni'r meini prawf asesu o fewn uned drwy wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau sydd ganddo eisoes heb ymgymryd â chwrs dysgu. Cydnabod dysgu blaenorol fel proses gyffredinol sy'n croesawu dwy is-set:

APEL (drwy brofiad lle defnyddir portffolio etc) ac
APEL (drwy ddilysu uned).



| Rhif Adolygiad: | 6 |
|---|---|
| Dyddiad Adolygu Diwethaf: | 09/22 |
| Dyddiad Adolygu Nesaf: | 09/24 |

Mae'r Polisi hwn ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn cyflwyno tystiolaeth ddigonol, ddibynadwy a dilys at ddibenion safonau a dilysu mewnol.

Mae Cydnabod Dysgu Blaenorol yn dderbyniol ar gyfer achredu uned, unedau neu gymhwyster cyfan; yn dibynnu ar reoliadau cyrff dyfarnu. Nid yw cydnabod dysgu blaenorol yn cynnwys asesu a barnu'r dysgu neu'r profiad blaenorol, ond asesu cymhwysedd a gwybodaeth bresennol yr ymgeisydd.

Fel arfer, cyflawnir **APEL** gan y dysgwr sy'n cyflwyno portffolio o dystiolaeth yn seiliedig ar ddysgu blaenorol, sgiliau a/neu gymhwysedd wedi'i groesgyfeirio at ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu'r uned neu'r unedau y ceisir cael cydnabod dysgu blaenorol ar eu cyfer, ynghyd â datganiad dilysrwydd, wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y dysgwr a'i lofnodi gan dyst (y tiwtor fel arfer). Gallai'r dystiolaeth gynnwys arsylwi perfformiad yr ymgeisydd yn y gweithle, cyfweliad gyda'r ymgeisydd neu ddulliau eraill y cytunwyd arnynt.

Caiff **APCL** ei gyflawni drwy ddysgu ardystiedig blaenorol, yn dibynnu ar feini prawf y sefydliad dyfarnu.

### Egwyddorion Sylfaenol Cydnabod Dysgu Blaenorol

Rhaid i'r dystiolaeth o'r dysgu fod yn:
- ddilys
- dibynadwy
- gonest
- digonol

Gellir hawlio cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer un neu fwy o unedau – bydd hyn yn cael ei osod gan y Sefydliad Dyfarnu perthnasol.

Bydd y Coleg yn rhoi gwybod i ddysgwyr am y cyfleoedd ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol.

Mae'r dysgwr yn gyfrifol am wneud y staff perthnasol yn ymwybodol o'i ddymuniad i wneud cais cydnabod dysgu blaenorol.

Rhaid i'r Aseswr Ansawdd Mewnol gynnwys cydnabod dysgu blaenorol yn y cynllun samplu fel dull asesu a bydd hyn yn amodol ar sicrwydd ansawdd mewnol.

## Datganiadau Polisi

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau dan y polisi hwn, bydd y Coleg yn:

- Dilyn gweithdrefn y corff dyfarnu mewn perthynas â chydnabod dysgu blaenorol bob amser. Pan mae dysgwr AU yn ymgymryd â darpariaeth fasnachfraint gyda sefydliad addysg uwch, bydd y Coleg yn dilyn gweithdrefn y brifysgol.

- Gwneud dysgwyr yn ymwybodol o ddiben ac argaeledd cydnabod dysgu blaenorol yn y cyfweliad, yn ogystal â'r amserlenni penodol; disgwylir y bydd pob cais yn cael ei wneud o fewn un mis o ddechrau cwrs blwyddyn, oni bai y nodir yn wahanol gan y corff dyfarnu.

- Cynnig cymorth ac arweiniad proffesiynol gan staff sydd ag arbenigedd priodol (cynghorydd cydnabod dysgu blaenorol) i ddysgwyr sy'n ystyried defnyddio cydnabod dysgu blaenorol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r corff dyfarnu penodol. Cyfrifoldeb y dysgwr yw cyflwyno portffolio o dystiolaeth ac unrhyw waith papur arall sy'n gysylltiedig â'r cais.

- Hyfforddi staff mewn gweithdrefnau cydnabod dysgu blaenorol.

- Cynnal uniondeb unedau a chymwysterau drwy sicrhau bod yr holl benderfyniadau asesu, gan gynnwys cydnabod dysgu blaenorol, yn gyson ac yn bodloni safonau'r sefydliad dyfarnu; yr asesydd cydnabod dysgu blaenorol fydd yn gyfrifol am hyn.

- Sicrhau bod rôl cyngor ac arweiniad ar wahân i swyddogaeth asesydd ym mhob hawliad cydnabod dysgu blaenorol.

- Rhoi adborth i'r dysgwr, trafod canlyniadau a chynnig cymorth ac arweiniad ar opsiynau dysgu dilynol os oes angen.

- Sicrhau bod aseswyr ansawdd mewnol ac allanol yn cadarnhau'r broses o gydnabod dysgu blaenorol a'r dyfarniad credyd arfaethedig.

- Sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o weithdrefn y Coleg a'r sefydliad dyfarnu ar gyfer apeliadau a chwynion.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gynnal y dyletswyddau sydd wedi'u hamlinellu.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol

Mae'r uwch dîm Ansawdd yn gyfrifol am:

- Gadw'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn gyfredol.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo i fodloni gofynion y polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

- Sicrhau bod gweithdrefnau'r corff dyfarnu a'r Sefydliad Addysg Uwch yn cael eu dilyn bob amser.
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i arferion a'u gwella.

Mae'r holl Staff Addysgu a Chefnogi Sgiliau yn gyfrifol am:

- Ymddwyn yn unol â'r Polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Bod yn ymwybodol o weithdrefnau eu corff dyfarnu perthnasol neu Sefydliad Addysg Uwch.
- Rhoi gwybod i ddysgwyr am y polisi a'r gweithdrefnau a'u cefnogi nhw i gael unrhyw gymorth.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cydnabod dysgu blaenorol.

## Deddfwriaeth ac Arweiniad

Canllawiau Sefydliadau Dyfarnu

## Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

## Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Dim

## Polisïau Cysylltiedig

- Polisi Diogelu Data
- Cwynion
- Bwlio ac Aflonyddu
- Derbyniadau
- Addysgu a Dysgu



| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | 6 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 09/22 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 09/24 |

- Rheoli Perthnasoedd
- Addas i Astudio
- Datgelu

## Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Gweithdrefn Gwyno
- Diogelu Data
- Derbyniadau
- Datgelu
- Addysgu a Dysgu
- Bwlio ac Aflonyddu
- Addas i Astudio

## Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

## Lleoliad a Chael Gafael ar y Polisi

Mae hwn ar gael ar y wefan, ac efallai na fydd yn gyfredol os caiff ei argraffu. Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo: 13 Chwefror 2015** | **Rheolwr sy'n Gyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu** |
| **Cymeradwywyd gan: Y Prif Fwrdd** | **Arweinydd Gweithredol: Is-Bennaeth Ansawdd a Thaith y Dysgwr** |
| **Dyddiad adolygu: 30 Medi 2024** | **Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy** |



| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | 6 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 09/22 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 09/24 |